

Newid Hinsawdd

Adnodd Ysgrifennu Darbwyllo

Rhagymadrodd ar gyfer yr adnodd....

Wrth i blant aeddfedu fel ysgrifenywyr, mae'n bwysig rhoi cyfle iddynt ddefnyddio amrywiaeth o fformatau wrth ysgrifennu. Mae ysgrifennu er perswâd yn helpu myfyrwyr i ffurfio rhesymau penodol am eu barnau, ac yn rhoi cyfle i ymchwilio i'r ffeithiau sy'n gysylltiedig â'u barnau. Wrth i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut gall ysgrifennu ddylanwadu ar rywun arall, neu newid eu meddyliau neu eu gweithredoedd, gallant ddechrau deall sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol i ddadleuon ar faterion byd-eang fel colli coedwigoedd a newid hinsawdd.

Gweithredu ar yr hinsawdd! Ysgrifennwch lythyr er perswâd i'ch AS neu Aelod Cynulliad!

Eisiau gweithredu ar newid hinsawdd? Wel, un o'r dulliau gorau o sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed yw defnyddio ysgrifennu er perswâd wrth ysgrifennu llythyr/e-bost at eich Aelod Seneddol neu Aelod Cynulliad (neu'r ddau!) yn esbonio eich pryderon ynglŷn â cholli coedwigoedd a newid hinsawdd. Gallech hefyd ddefnyddio ysgrifennu er perswâd i gysylltu â chwmnïau y mae eu gweithredoedd yn niweidio ein byd.

Beth yw ysgrifennu er perswâd?

Bwriad ysgrifennu er perswâd yw perswadio darllenwyr i gredu mewn syniad neu farn. Mae'n fath o ysgrifennu ffeithiol y mae'r ysgrifennwr yn ei ddefnyddio i ddatblygu dadleuon rhesymegol, gan ddefnyddio geiriau a brawddegau a ddewiswyd yn ofalus. Bwriad ysgrifennu er perswâd yw perswadio darllenwyr i gredu mewn syniad a gwneud gweithred.

Mae ysgrifennu er perswâd yn defnyddio pob math o offer fel:

- **Iaith gref** - Geiriau neu frawddegau grymus i greu ymdeimlad o emosiwn
- **Dadleuon** - Mae'r rhain yn defnyddio rhesymeg a rhesymu i ddangos bod un syniad yn fwy cyfiawn a rhesymol nag un arall. Mae'n ceisio perswadio darlennydd i fabwysiadu safbwynt penodol neu wneud gweithred benodol.
- **Datganiadau ffeithiol** - Mae'r rhain yn darparu tystiolaeth sy'n helpu i atgyfnerthu eich dadl. Gwiriwch fod y ffeithiau a ddefnyddiwyd yn gywir ac yn wiriadwy.
- **Barnau** - Mae'r rhain yn personoli eich dadl. Maen nhw'n helpu'r darlennydd i ddeall beth yw eich credau.

Tasg 1- Llythyr enghreifftiol

Isod rhoddir enghraifft o lythyr er perswâd at Aelod Cynulliad. Naill ai ar eich pen eich hun, neu gyda ffrind, ceisiwch weld a allwch chi adnabod y pedair elfen wahanol a restrir uchod. Defnyddiwch bensiliau o wahanol liwiau i'w cylchu neu eu lliwddangos fel hyn:

Defnyddiwch bensil coch i ddangos y defnydd o **iaith gref**

Defnyddiwch bensil glas i ddangos y defnydd o **osodiadau ffeithiol**

Defnyddiwch bensil porffor i ddangos y defnydd o **farnau**

Defnyddiwch bensil gwyrdd i ddangos llunio unrhyw **ddadleuon** er perswâd

Annwyl Aelod Cynulliad

Cyflwyniad

Fy enw i yw Myfyriwr ac rwy'n ddisgybl yn Ysgol Yn ddiweddar cafodd fy nosbarth ymweliad gweithdy gan yr elusen coedwigoedd glaw, Maint Cymru. Yn ystod yr ymweliad dysgom am y difrod sy'n cael ei wneud i goedwigoedd glaw'r byd. Dysgom hefyd am y cysylltiad rhwng colli coedwigoedd a newid hinsawdd.

Paragraff y
ddadl gyntaf

Yn ddiamau mae torri coedwigoedd glaw yn cyfrannu at y broblem o gynhesu byd-eang. Mae gweithgaredd dynion wedi creu'r broblem hon oherwydd ein dibyniaeth ar danwydd ffosil ar gyfer ynni. Mae llosgi tanwyddau ffosil ar gyfer ynni yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr fel carbon deuocsid. Mae coed yn amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer ac yn storio carbon, felly mae parhau i dorri ein coedwigoedd glaw ar y gyfradd bresennol (mae ardal o goedwig law o faint cae rygbi yn cael ei cholli bob munud) yn anghyfrifol. Oni ddylem fod yn gweithredu i ddiogelu ein coedwigoedd glaw, a hyd yn oed plannu mwy o goed yn fyd-eang, yn hytrach na'u torri?

Paragraff yr
ail dadl

Yn ystod yr ymweliad, clywsom am rai o'r rhesymau pam mae coedwigoedd glaw yn cael eu torri. Er enghraifft, dysgom fod coedwigoedd trofannol yn cael eu clirio'n ddirugaredd ar gyfer planhigfeydd olew palmwydd. Mae hyn yn niweidiol i anifeiliaid fel yr orangwtangiaid yn Borneo sydd mewn perygl o ddiflannu'n llwyr oherwydd eu bod yn colli eu cynefin. Dywedwyd wrthym hefyd am olew palmwydd cynaliadwy sy'n cael ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n cyfyngu ar y difrod i gynefin coedwigoedd. Rwy'n credu y dylai mwy o bobl yng Nghymru gael gwybod am olew palmwydd cynaliadwy fel y gallant wneud dewisiadau mwy deallus pan fyddan nhw'n

siopa. Gallai codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn drwy addysgu oedolion a phlant yn well wneud i bobl newid eu harferion siopa, a'u helpu i benderfynu prynu cynhyrchion nad ydynt yn niweidio ein coedwigoedd glaw. Byddai hyn yn arwain at Gymru sy'n fwy cyfeillgar i goedwigoedd glaw.

Paragraff
olaf

I gloi, mae pobl ifanc y byd yn wynebu dyfodol ansicr oherwydd effeithiau newid hinsawdd yn fyd-eang. Rwy'n credu y dylem ni fel cenedl chwarae ein rhan mewn mynd i'r afael â'r broblem trwy weithredu i ddiogelu ein coedwigoedd glaw trofannol. Gallai hyn ddigwydd trwy orfodi cwmnïau i ddweud wrth ddefnyddwyr p'un ai fod yr olew palmwydd yn eu cynhyrchion yn gynaliadwy neu beidio. Gellid cyflawni hyn drwy roi labeli gwell a chliriach ar gynnyrch fel y gall defnyddwyr wneud dewisiadau mwy deallus o ran pa gynhyrchion i'w prynu er mwyn helpu i ddiogelu ein coedwigoedd glaw.

Gallem hefyd wneud mwy i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr ein gwlad – efallai drwy roi paneli solar i bob ysgol? Drwy wneud hyn, byddem wir yn gallu dangos i'r byd bod Cymru o ddifrif ynglŷn â mynd i'r afael â phroblemau colli coedwigoedd a newid hinsawdd.

Yr eiddoch yn gywir

Myfyriwr

Sut wnaethoch chi?

Dyma gopi arall o'r llythyr, y tro hwn gyda gwahanol elfennau wedi'u lliwddangos. Ydy'ch fersiwn chi yn edrych yn debyg iddo? Cofiwch fod y gwahanol elfennau wedi'u lliwddangos fel hyn:

Defnyddiwch bensil coch i ddangos y defnydd o **iaith gref**

Defnyddiwch bensil glas i ddangos y defnydd o **osodiadau ffeithiol**

Defnyddiwch bensil porffor i ddangos y defnydd o **farnau**

Defnyddiwch bensil gwyrdd i ddangos llunio unrhyw **ddadleuon** er perswâd

Annwyl Aelod Cynulliad

Cyflwyniad

Fy enw i yw Myfyriwr ac rwy'n ddisgybl yn Ysgol ,,,,,,. Yn ddiweddar cafodd fy nosbarth ymweliad gweithdy gan yr elusen coedwigoedd glaw, Maint Cymru. Yn ystod yr ymweliad dysgom am y difrod sy'n cael ei wneud i goedwigoedd glaw'r byd. Dysgom hefyd am y cysylltiad rhwng colli coedwigoedd a newid hinsawdd.

Paragraff y
ddadl gyntaf

Yn ddiamau mae torri coedwigoedd glaw yn cyfrannu at y broblem o gynhesu byd-eang. Mae gweithgaredd dynion wedi creu'r broblem hon oherwydd ein dibyniaeth ar danwydd ffosil ar gyfer ynni. Mae llosgi tanwyddau ffosil yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr fel carbon deuocsid. Mae coed yn amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer ac yn storio carbon, felly mae parhau i dorri ein coedwigoedd glaw ar y

gyfradd bresennol (mae ardal o goedwig law o faint cae rygbi yn cael ei cholli bob munud) yn anghyfrifol. Oni ddylem fod yn gweithredu i ddiogelu ein coedwigoedd glaw, a hyd yn oed plannu mwy o goed yn fyd-eang, yn hytrach na'u torri?

Paragraff yr ail ddadl

Yn ystod yr ymweliad, clywsom am rai o'r rhesymau pam mae coedwigoedd glaw yn cael eu torri. Er enghraifft, dysgom **sut mae coedwigoedd trofannol yn cael eu clirio'n ddidrugaredd** ar gyfer planhigfeydd olew palmwydd. Mae hyn yn niweidiol i anifeiliaid fel yr orangwtangiaid yn Borneo sydd mewn perygl o ddiplannu'n llwyr oherwydd eu bod yn colli eu cynefin. Dywedwyd wrthym hefyd **am olew palmwydd cynaliadwy sy'n cael ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n cyfyngu ar y difrod i gynefin coedwigoedd. Rwy'n credu y dylai mwy o bobl yng Nghymru gael gwybod am olew palmwydd cynaliadwy fel y gallant wneud dewisiadau mwy deallus pan fyddan nhw'n siopa. Gallai codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn drwy addysgu oedolion a phlant yn well wneud i bobl newid eu harferion siopa, a'u helpu i benderfynu prynu cynhyrchion nad ydynt yn niweidio ein coedwigoedd glaw. Byddai hyn yn arwain at Gymru sy'n fwy cyfeillgar i goedwigoedd glaw.**

Paragraff olaf

I gloi, **mae pobl ifanc y byd yn wynebu dyfodol ansicr oherwydd effeithiau newid hinsawdd yn fyd-eang. Rwy'n credu y dylem ni fel cenedl chwarae ein rhan mewn mynd i'r afael â'r broblem trwy weithredu i ddiogelu ein coedwigoedd glaw trofannol. Gallai hyn ddigwydd trwy orfodi cwmnïau i ddweud wrth ddefnyddwyr p'un ai fod yr olew palmwydd yn eu cynhyrchion yn gynaliadwy neu beidio. Gellid cyflawni hyn drwy roi labeli gwell a chliriach ar gynnyrch fel y gall defnyddwyr wneud dewisiadau mwy**

deallus am ba gynhyrchion i'w prynu er mwyn helpu i ddiogelu ein coedwigoedd glaw.

Gallem hefyd wneud mwy i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr ein gwlad – efallai drwy roi paneli solar i bob ysgol? Drwy wneud hyn byddem wir yn gallu dangos i'r byd bod Cymru o ddifrif ynglŷn â mynd i'r afael â phroblemau colli coedwigoedd a newid hinsawdd.

Yr eiddoch yn gywir

Myfyriwr

Casgliad

Mae'n ddiddorol gweld cydbwysedd y lliwiau trwy'r darn ysgrifennu. Defnyddir ffeithiau i ffurfio barnau yn gynnar ym mharagraffau'r ddadl, ac mae iaith gref yn helpu i ddod ag emosiwn yr ysgrifennwr i mewn i'r llythyr/e-bost. Yna rydym yn gweld y dadleuon yn cael eu cyflwyno lle mae gweithredoedd yn cael eu hawgrymu i unioni'r problemau mae'r awdur wedi'u disgrifio.

Wel dyna ni! Eich tro chi yw hi nawr! Beth am gynnal trafodaeth yn y dosbarth i adolygu beth gafodd ei ddysgu yn eich gweithdy Maint Cymru.

Gawsoch chi eich taro gan unrhyw ffeithiau neu faterion penodol? Eich cythruddo? Eich cynhyrfu? Gwnaethon nhw i chi eisiau gweithredu? Os felly efallai gallech drafod y rhain yn y dosbarth, efallai gallech wneud ychydig mwy o ymchwil i gael mwy o wybodaeth ac yna trafod pwy fyddai'r person gorau i gysylltu ag ef i leisio eich pryderon a'ch awgrymiadau.

Ac yn olaf – byddai'n dda iawn gennym weld enghreifftiau o'ch ysgrifennu er perswâd felly anfonwch gopiau o'ch llythyrau a'ch e-byst atom!

A dyna ni felly – drosodd atoch chi nawr. Chwiliwch am ysbrydoliaeth! Paratowch ar gyfer gweithredu ac ewch ati i ysgrifennu!!!